**Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw terfynu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran ar 31 Awst 2026, a sefydlu'r un ysgol fel ysgol gymunedol 3-11 o 1 Medi 2026.

## Crynodeb / Casgliad

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r awdurdod lleol wedi amlinellu rhesymeg glir ar gyfer ei gynnig. Mae hyn yn nodi'n eglur ac yn deg y manteision a'r anfanteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol, a sut byddant yn rheoli unrhyw risg.

Nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion mai ysgol wledig yw Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Cilgerran (cyfeirir ati ar ôl hyn fel Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran). Er bod y cynnig yn cynnwys cau'r ysgol ar 31 Awst 2026, mae hwn yn fesur technegol sy'n angenrheidiol i ddileu ei statws fel ysgol wirfoddol a reolir, gyda bwriad i'w hailagor yn ysgol gymunedol ar 1 Medi 2026. O'r herwydd, nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r gofynion gweithdrefnol ychwanegol a fydd yn cael eu hystyried wrth ffurfio cynnig ar gyfer cau ysgol wledig.

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi disgrifiad clir o'r cynnig ac amserlen amcanestynedig ar gyfer gweithdrefnau statudol, ac ar gyfer gweithredu'r amserlen. Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'i gynnig.

Mae Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3-11 a gynhelir gan Gyngor Sir Penfro o dan reolaeth wirfoddol Esgobaeth Tyddewi. Mae'n

un o 7 ysgol gynradd yng nghlwstwr Preseli a'r unig un ag iddi sylfaen Gristnogol. Mae'r cynnig yn nodi gostyngiad cyson ond cymedrol yn niferoedd y disgyblion yn Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran dros y pedair blynedd diwethaf, gan arwain at 21% o leoedd dros ben ym mis Rhagfyr 2025. Mae amcanestyniadau o niferoedd y disgyblion yn seiliedig ar ddata CYBLD yn dangos bod y lleoedd dros ben hyn yn debygol o gynyddu'n araf i 32% erbyn 2030. Mae'r cynnig hefyd yn amlygu mai cyfran gyffredinol y lleoedd dros ben ar draws y 7 ysgol gynradd yng nghlwstwr Preseli, y mae Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran yn rhan ohono, oedd 34.07% yn 2025.

Mae'r Cyngor yn cydnabod yn gywir na fydd ei gynnig yn lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol nac ar draws y clwstwr. Fodd bynnag, mae'r cynigiwr yn dadlau, heb fod yn afresymol, o ystyried y duedd gynyddol mewn lleoedd dros ben, y gellid gwella cynaliadwyedd tymor hir ysgolion unigol trwy ffedereiddio posibl rhwng ysgolion yn y dyfodol. Yn benodol, mae'r cynigiwr yn nodi y gallai cyfleoedd i ffedereiddio yn y dyfodol alluogi ysgolion i gydgyfrannu adnoddau ac elwa ar arbedion maint. Mae'r cynnig hefyd yn awgrymu'n deg y gallai trefniant o'r fath ddarparu budd sylweddol i recriwtio penaethiaid ar adeg pan fydd rolau uwch arweinwyr mewn ysgolion bach yn dod yn wag.

Oherwydd y gall ysgolion ffydd gwirfoddol a reolir ond ffedereiddio ag ysgolion o'r un categori, mae'r cynnig yn nodi y byddai angen i Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran newid i statws ysgol gymunedol er mwyn i unrhyw ffedereiddio posibl ag ysgolion lleol eraill ddigwydd yn y dyfodol.

Mae'r cynnig yn amlinellu na ragwelir unrhyw arbediad ariannol i'r awdurdod lleol o ganlyniad i'r newid mewn statws. Yn bwysig, fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn nodi p'un a yw'r ysgol yn elwa ar gymorth ariannol ychwanegol trwy'r Eglwys yng Nghymru ar hyn o bryd o ganlyniad i'w statws ysgol wirfoddol a reolir, a beth allai'r effaith fod ar gyllid cyffredinol yr ysgol, os o gwbl, o ganlyniad i'r newid arfaethedig.

Mae'r cynnig yn cydnabod, er bod yr ysgol yn cael ei chynnal gan yr awdurdod lleol, mai Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi sydd â pherchnogaeth safle'r ysgol. Mae'r cynigiwr yn datgan y byddai angen trafod i drosglwyddo perchnogaeth i'r Cyngor pe bai cymeradwyaeth yn cael ei rhoi i sicrhau statws ysgol gymunedol. Nid yw'n ymddangos bod y ddogfen yn rhagweld unrhyw gostau ariannol yn gysylltiedig â throsglwyddo trefniadau perchnogaeth yn y dyfodol, ac nid yw'n rhoi mwy o fanylion.

Mae'r awdurdod lleol yn amlinellu dau opsiwn posibl yn ei gynnig, ac un o'r rhain yw cynnal y sefyllfa bresennol. Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y naill opsiwn a'r llall ar ansawdd a safonau addysg, y gymuned leol a threfniadau teithio. Mae'r cynnig yn amlinellu rhesymau addas dros wrthod hyfywedd cynnal y sefyllfa bresennol. Prif reswm y cynigiwr dros ddiystyru'r opsiwn hwn yw'r ffaith nad yw'n galluogi unrhyw gyfleoedd i ffedereiddio yn y dyfodol i wella cynaliadwyedd tymor hir.

Yn ei Gwestiynau Cyffredin, mae'r cynnig yn ystyried ac yn gwrthod y posibilrwydd i newid statws ysgolion eraill i ysgolion gwirfoddol a reolir er mwyn iddynt allu ffedereiddio ag Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, o bosibl. Y rheswm am hyn yw y byddai gofyn newid statws sawl ysgol gymunedol i fod yn ysgolion gwirfoddol a reolir, tra bod y cynnig ond yn gofyn am newid statws i un ysgol i alluogi cyfleoedd ffedereiddio yn yr ardal yn y dyfodol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. O ystyried y bydd yr ysgol yn aros yn ei lleoliad presennol, nid oes unrhyw newidiadau y rhagwelir y byddant yn effeithio ar gymhwysedd presennol disgyblion i gael cludiant ysgol nac yn effeithio ar eu defnydd o lwybrau cerdded a seiclo i'r ysgol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ddarpariaeth ffydd amgen yn yr ardal leol, ac mae'r ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Cymraeg agosaf 23 milltir i ffwrdd. Mae'r cynnig yn cydnabod y bydd rhieni a gofalwyr sy'n dymuno i'w plentyn / plant barhau i dderbyn addysg mewn ysgol ffydd yr Eglwys yng Nghymru yn cael eu heffeithio gan y cynnig hwn ac na fyddai disgyblion yn gymwys i gael cludiant ysgol i'r ysgol wirfoddol a reolir cyfrwng Cymraeg amgen agosaf. Nid oes unrhyw fesurau arfaethedig i liniaru'r effaith hon.

O ystyried natur y cynnig, ni ragwelir bod unrhyw newidiadau i drefniadau derbyn, staffio nac i unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys Mudiad Meithrin a fyddai'n parhau i gynnig darpariaeth ar gyfer plant 2 flwydd oed yng Nghanolfan y Blynyddoedd Cynnar ar safle'r ysgol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Mae'r cynnig yn cydnabod nad yw, efallai, yn bodloni dymuniadau pob un o'r rhieni, gofalwyr neu'r aelodau o'r gymuned sydd am weld statws gwirfoddol a reolir yr ysgol yn cael ei gadw. Mae'n cydnabod, yn ogystal, y byddai dileu statws gwirfoddol a reolir yn cael effaith negyddol ar nodweddion gwarchodedig Crefydd a Chred. Mae'r Cyngor yn cynnig lliniaru unrhyw effaith negyddol trwy ymateb yn llawn i bryderon a godwyd trwy'r broses ymgynghori.

Yn rhan o'r cynnig ar gyfer terfynu Ysgol Wirfoddol a Reolir Cilgerran, a sefydlu'r un ysgol fel ysgol gymunedol, byddai corff llywodraethol yr ysgol yn dod i ben wrth derfynu'r ysgol, a byddai corff llywodraethol newydd yn cael ei sefydlu ar gyfer yr ysgol gymunedol (a'i sefydlu yn unol â Deddf Addysg 2002). Y gwahaniaeth allweddol yw na fyddai unrhyw Lywodraethwyr Sefydledig (sy'n gyfrifol am gynrychioli'r Eglwys yng Nghymru) yn aelod o'r corff llywodraethol ar gyfer yr ysgol gymunedol. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn nodi na fyddai cyfle i lywodraethwyr presennol (cyn newid statws) geisio cael eu hailbenodi i fod yn aelodau o'r bwrdd newydd.

Mae'r cynnig yn tybio'n rhesymol y bydd y newid arfaethedig i statws yr ysgol yn cael effaith niwtral ar y Gymraeg. Byddai'r ysgol yn aros yn ysgol cyfrwng Cymraeg

categori 3, gyda darpariaeth iaith yn parhau i gefnogi'r amcanion yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Mae'n bosibl y gallai rhai disgyblion ddewis trosglwyddo i ysgolion lleol eraill, y mae pob un ohonynt hefyd yn darparu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystyriaeth briodol yn ei gynnig i effaith y newid ar yr ansawdd a'r safonau mewn addysg. Er enghraifft, mae'n dangos adroddiad arolygiad diweddaraf yr ysgol gan Estyn (Hydref 2017) a gwerthusiad diweddar gan Ymgynghorydd Gwella'r ysgol sy'n nodi prif gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. O ystyried nad yw addysgu ac arweinyddiaeth yn cael eu heffeithio gan y newid arfaethedig, mae'r cynnig yn dod i'r casgliad yn deg na fydd y cynnydd a wna disgyblion, yn cynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, na'u lles a'u hagweddau at ddysgu, yn cael eu heffeithio yn ei hanfod o ganlyniad i newid statws.

Nid yw'r cynnig yn darparu gwybodaeth am yr arolygiad adran 50 diweddaraf gan yr Eglwys yng Nghymru nac yn ystyried unrhyw addasiadau yn arfer neu gwricwlwm yr ysgol a allai ddeillio o'r newid. Er enghraifft, byddai terfynu statws gwirfoddol a reolir yr ysgol yn dileu'r angen i'r ysgol gynnal cymeriad Cristnogol penodol. Fodd bynnag, byddai'n parhau i fod yn ofynnol i'r ysgol ddarparu addysg gyfannol, yn cynnwys trwy gyflwyno agweddau gorfodol ar Gwricwlwm i Gymru, fel y ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am grefydd, gwerthoedd a moeseg a'r gofyniad i gynnal gweithredoedd addoli dyddiol y mae'n rhaid iddynt fod o gymeriad Cristnogol bras yn gyfan gwbl neu'n bennaf.